



Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi

IONAWR 2022



Hanes y fersiwn

Cyhoeddwyd Fersiwn 3 o'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau ym mis Ionawr 2022. Cyhoeddwyd Fersiwn 2 ym mis Tachwedd 2019. Roedd Gwasanaethau Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau dros dro ar waith ar gyfer haf 2020 a 2021 oherwydd Covid-19. Mae'r ddogfen Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau hon yn disodli unrhyw ddogfen a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Croesewir adborth ar y ddogfen hon ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org.

Os mae arnoch chi angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, e-bostiwch polisi@cymwysteraucymru.org. Cofiwch ddweud wrthym y math o fformat sydd ei angen arnoch chi. Byddai'n help mawr i ni os gallech chi ddweud wrthym ba fath o dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei defnyddio hefyd.

Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi

1. Mae'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) yn weithdrefn y mae Cymwysterau Cymru yn ei chyflawni er mwyn adolygu'r tri math canlynol o benderfyniad a wneir gan gyrff dyfarnu, mewn perthynas â chymwysterau cymwys fel y disgrifir ym mharagraff 5 isod:
 - marcio a chymedroli;
 - addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig; a
 - camymddwyn neu gamweinyddu.
2. Bydd yr EPRS yn adolygu a yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod ai peidio.

Cwmpas

3. O ran cymwysterau TGAU ac UG a Safon Uwch, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu fod â phrosesau apelio yn unol ag ASC.I o'n dogfen [Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG](#). Ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu fod â phrosesau apelio yn unol ag Amod WB.E o'n dogfen [Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru](#).
4. Defnyddir yr EPRS ar gyfer adolygu'r apeliadau hyn a wneir gan gyrff dyfarnu mewn perthynas â
 - a. canlyniad unrhyw asesiad mewn perthynas â Dysgwr, yn dilyn adolygiad o farcio Deunydd Asesu wedi'i Farcio mewn perthynas â'r asesiad hwnnw (ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG yn unig);
 - b. canlyniad unrhyw adolygiad o Gymedroli marcio asesiad gan Ganolfan;
 - c. penderfyniadau ynghylch addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig; a
 - d. penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw gamau i'w cymryd yn erbyn dysgwr neu ganolfan yn dilyn ymchwiliad i gamymddwyn neu gamweinyddu.
5. Mae ERPS yn ymwneud â dyfarnu **cymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch** sy'n cael eu Cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ac â **Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru**.

6. Er bod yr EPRS ar gyfer y tri math hyn o gymhwyster, byddwn hefyd yn delio â chwynion am ddyfarnu cymwysterau rheoledig eraill yn unol â'n [Polisi Cwynion am Gyrrff Dyfarnu](#).

Pwy all wneud cais am EPRS?

7. Rhaid i Ddysgwr neu Ganolfan wneud ceisiadau. Rhaid i'r ymgeisydd fod yr un yr effeithir arno'n uniongyrchol gan benderfyniad gwreiddiol y corff dyfarnu.

Beth yw EPRS?

8. Rôl yr EPRS yw adolygu'r broses a wneir gan y corff dyfarnu wrth drin yr apêl. Ar ffurf panel, bydd panelwyr yr EPRS yn penderfynu i ba raddau yr oedd y dyfarnu yn cydymffurfio â'n gofynion a chyda'u polisiâu a'u gweithdrefnau eu hunain. Felly, dim ond achosion sydd wedi gorffen cam penderfyniad terfynol a glywir gennym fel arfer. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y corff dyfarnu wedi cael cyfle i ddelio â'r achos yn llawn a'n bod yn adolygu'r broses gyfan honno ar gyfer cydymffurfio. I'r ymgeisydd, mae hyn yn golygu bod proses apelio wedi'i chwblhau ac o bosibl bod adolygydd annibynnol wedi adolygu'r penderfyniad gan y corff dyfarnu ac wedi cadarnhau'r penderfyniad hwnnw, cyn gwneud cais i ni. Yr EPRS yw'r dyfarnwr terfynol.
9. Yn ogystal, ni fydd EPRS fel arfer yn ystyried cais a wnaed fwy nag 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd yr ymgeisydd benderfyniad terfynol gan y corff dyfarnu.
10. Gellir delio â chwynion eraill yn ymwneud â gweithredoedd cyrrff dyfarnu wrth ddyfarnu cymwysterau rheoledig yn unol â'n [Polisi Cwynion am Gyrrff Dyfarnu](#).

Panel EPRS

11. Bydd y Panel EPRS fel arfer yn cynnwys ein Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, Pennaeth Monitro a Chydymffurfiaeth a Phennaeth Polisi Rheoleiddio. Gall y Panel EPRS ar unrhyw adeg ofyn am gyngor cyfreithiol, technegol neu gyngor sy'n ymwneud ag achosion penodol (e.e. megis ynghylch addasiadau rhesymol).
12. Gall y Panel ar unrhyw adeg gymryd cyngor cyfreithiol, technegol neu gyngor arall, a gall hefyd alw ar adolygwyr annibynnol yn ôl yr angen.

13. Gellir cynnal y Panel EPRS fel adolygiad desg o'r holl dystiolaeth, neu gellir cynnal gwrandawriad, yn ogystal â chasglu tystiolaeth gan gynnwys trwy gyfweiliadau ag unigolion perthnasol.

Cysylltu â EPRS

14. Os ydych yn dymuno i'ch apêl gael ei hadolygu gan EPRS, cysylltwch â ni ar:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn,
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

01633 373 222

corporategovernance@qualificationswales.org

15. Pan fyddwch yn cysylltu â ni, dylech ein hysbysu o'r canlynol:

- eich enw;
- enw'r corff dyfarnu perthnasol; a
- crynodeb o'r achos, gan gynnwys enw'r cymhwyster perthnasol ac unrhyw ddyddiadau perthnasol.

Dylech nodi eich bod am i'r achos gael ei adolygu gan ein EPRS, a chynnwys digon o wybodaeth i'n galluogi i benderfynu a yw'r achos yn dod o fewn cwmpas ein proses ERPS ai peidio.

Proses yr adolygiad

16. Wrth dderbyn y cais, byddwn yn galw panelwyr yr EPRS i benderfynu a yw'r cais o fewn cwmpas y polisi hwn. Ar adegau pan fydd, byddwn wedyn yn cysylltu â'r ymgeisydd i gadarnhau hyn ac amlinellu ein hamserlenni i gyflawni'r ERPS.

17. Pan nad yw'r cais o fewn cwrpas y polisi hwn, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd i roi gwybod iddynt cyn pen 10 diwrnod ar ôl derbyn eu cais yn esbonio'r rhesymau pam.
18. Bydd yr EPRS fel rheol yn cymryd tua 28 diwrnod i'w gwblhau. Os bydd angen mwy o amser arnom, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn esbonio'r rhesymau dros hyn.
19. Pan fydd angen tystiolaeth bellach gan yr ymgeisydd a/neu'r corff dyfarnu, byddwn yn eu hysbysu, gan nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom ac yn nodi'r amserlen y mae'n rhaid darparu'r dystiolaeth honno ynddi.
20. Bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu a ddylid datgelu'r dystiolaeth bellach i'r ymgeisydd neu i'r corff dyfarnu, fel y bo'n briodol a gallant ganiatáu cyfnod i sylwadau gael eu gwneud yn dilyn datgeliad o'r fath.

Adroddiad

21. Bydd y panel EPRS yn cynhyrchu adroddiad yn crynhoi ei ganfyddiadau. Gall hyn gynnwys argymhellion i'w gwneud i'r corff dyfarnu, y ganolfan neu'r dysgwr. Bydd yr adroddiad yn:
 - a. nodi'r agwedd ar weithdrefnau'r corff dyfarnu ei hun y mae'n credu nad yw'r corff dyfarnu wedi ei dilyn; a/neu
 - b. nodi'r canlyniad y mae'r corff dyfarnu wedi methu â'i sicrhau ac unrhyw Amod(au) y mae'r panel yn credu nad yw'r dyfarniad wedi cydymffurfio ag ef/hwy hwy; a
 - c. nodi unrhyw anfantais neu anfantais bosibl i Ddysgwr perthnasol; a
 - d. esbonio'r rhesymau dros ei benderfyniad, gan gynnwys nodi'r dystiolaeth y mae wedi dibynnu arni, egluro unrhyw gasgliadau y mae wedi'u tynnu ac unrhyw dystiolaeth nad yw wedi teimlo y gall ddibynnu arni.

Os yw'r EPRS yn nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio posibl ar ran corff dyfarnu, cyfeirir hyn at y tîm Monitro a Chydymffurfiaeth. Er bod yr adroddiad yn cloi'r broses EPRS, rydym yn rhagweld y bydd canfyddiadau diffyg cydymffurfio fel arfer yn cychwyn llif gwaith newydd i ymchwilio i weld a oes angen cymryd camau rheoleiddio yn unol â'n [Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith](#).

22. Bydd y Panel EPRS yn cyflwyno eu hadroddiad i Fwrdd Rheoleiddio Cymwysterau Cymru.